



# Papurau Pwyllgor Cynggori ar Fwyd Cymru

Cyfarfod Agored

13 Medi 2018

**Cyfarfod Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru**  
**13 Medi 2018**  
**Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, Llawr 11, Tŷ Southgate, Wood Street,**  
**Caerdydd, CF10 1EW**

**Agenda**  
**Cyfarfod Agored**

Cofrestru a phaned	09:15 – 09:25
Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau	09:25 – 09:30
<b><u>Paratoi ar gyfer eitemau i'w trafod gan y Bwrdd</u></b>	
Diweddariad blynyddol ar les anifeiliaid <b>Papur FSAW 18/09/04</b>	09:30 - 09:55
Adroddiad blynyddol ar ddigwyddiadau a gwydnwch <b>Papur FSAW 18/09/05</b>	09:55 - 10:15
Rheoleiddio Ein Dyfodol – Fframwaith sicrwydd ar gyfer Strategaethau Arolygu Cenedlaethol y Prif Awdurdod a'r camau nesaf ar sicrwydd preifat wedi'i reoleiddio <b>Papur FSAW 18/09/06</b>	10:15 - 10:45
Egwyl	10:45 – 11:00
Dadansoddi Risg: Proses, Llywodraethu, Cyfathrebu <b>Papur FSAW 18/09/07</b>	11:00 - 11:25
Diweddariad ar weithgareddau gwyddoniaeth yr ASB ar ymwrthedd gwrthficrobaidd gan gynnwys adroddiad grŵp gorchwyl a gorffen ACMSF <b>Papur FSAW 18/09/08</b>	11:25 - 11:40
<b><u>Materion y pwyllgor</u></b>	
Y cyfarfod agored diwethaf a materion sy'n codi <b>Papur FSAW 18/09/01</b>	11:40 – 11:50
Adroddiad gan y Cadeirydd <b>Papur FSAW 18/09/02</b>	11:50 – 12:00
Diweddariad gan y Cyfarwyddwr <b>Papur FSAW 18/09/03</b>	12:00 – 12:10
Adborth gan Rwydweithiau'r Pwyllgor	12:10 – 12:20

**Sesiwn Holi ac Ateb Gyffredinol**

12:20 – 12:25

Unrhyw fater arall

12:25

Diwedd y cyfarfod agored

12:30

**Papurau i'w nodi – ar gael i'w gweld drwy [www.food.gov.uk](http://www.food.gov.uk)**

Amserlen o Gyfarfodydd y Pwyllgor

Cofrestr o Fuddiannau'r Aelodau

Bywgraffiadau Aelodau Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru

**FSAW 18/09/04**  
**I'w drafod**

**Diweddariad ar Les Anifeiliaid**

Crynodeb Gweithredol

1.1 Mae'r papur atodedig, sydd i'w ystyried gan y Bwrdd ar 19 Medi, yn rhoi diweddariad ar weithgareddau'r ASB i lywio gwelliannau o dan y rhaglen lles anifeiliaid "**Datrys, Atal, Canfod, Gorfodi**" mewn lladd-dai yng Nghymru a Lloegr.

1.2 Bydd Julia Williams yn cyflwyno'r papur i'r Pwyllgor.

1.3 Gwahoddir aelodau'r Pwyllgor i:

1. **ystyried** papur y Bwrdd.
2. **ystyried** unrhyw gyngor y mae'r Pwyllgor yn dymuno i'r Bwrdd ei ystyried fel rhan o'i drafodaethau.

Gellir dod o hyd i'r papur llawn (ASB 18-09-05) drwy:  
<https://www.food.gov.uk/about-us/fsa-board-meeting-september-2018>  
(Saesneg yn unig)

---

**FSAW 18/09/05**  
**I'w drafod**

**Adroddiad Blynyddol Digwyddiadau a Gwydnwch**

Crynodeb Gweithredol

1.1 Mae'r papur atodedig, sydd i'w ystyried gan y Bwrdd ar 19 Medi, yn cynnwys yr adroddiad blynyddol o ddigwyddiadau a swyddogaeth gwydnwch yr ASB, hyd at fis Mawrth 2018. Thema ganolog y papur yw ffocws yr Uned ar welliant parhaus. Mae'n nodi'r ymdrechion sy'n cael eu gwneud i gryfhau gwydnwch a gallu'r ASB, fel y gallwn ni barhau i weithio'n eithriadol o dda o ddydd i ddydd, ar ôl Ymadael â'r UE. Trafodwyd yr adroddiad blynyddol blaenorol ar gyfer 2016/17 yng nghyfarfod Bwrdd yr ASB ym mis Rhagfyr 2017.

1.2 Bydd Philip Randles yn cyflwyno'r papur i'r Pwyllgor.

### 1.3 Gwahoddir aelodau'r Pwyllgor i:

1. **ystyried** papur y Bwrdd.
2. **ystyried** unrhyw gyngor y mae'r Pwyllgor yn dymuno i'r Bwrdd ei ystyried fel rhan o'i drafodaethau.

Gellir dod o hyd i'r papur llawn (ASB 18-09-06) drwy:  
<https://www.food.gov.uk/about-us/fsa-board-meeting-september-2018>  
(Saesneg yn unig)

---

### **FSAW 18/09/06** **I'w drafod**

### **Rheoleiddio Ein Dyfodol – Fframwaith Sicrwydd Ar Gyfer Strategaethau Arolygu Cenedlaethol Prif Awdurdodau a Chamau Nesaf Sicrwydd Preifat Wedi'i Reoleiddio**

Crynodeb Gweithredol

1.1 Mae'r papur atodedig, sydd i'w ystyried gan y Bwrdd ar 19 Medi, yn rhoi diweddariad ar y cynnydd a wnaed i archwilio strategaethau arolygu cenedlaethol Prif Awdurdodau ac i ddatblygu safonau strategaethau arolygu cenedlaethol yr ASB fel rhan o Raglen Rheoleiddio Ein Dyfodol (ROF). Mae'r papur yn nodi effaith cyflwyno fframweithiau sicrwydd newydd i'r model cyflwyno ar yr ASB a'r cyfle a ddaw i alinio gweithgareddau. Mae hefyd yn rhoi diweddariad ar gamau nesaf y rhaglen mewn perthynas â sicrwydd preifat wedi'i reoleiddio.

1.2 Bydd Nina Purcell a Michael Jackson yn cyflwyno'r papur i'r Pwyllgor.

### 1.3 Gwahoddir aelodau'r Pwyllgor i:

1. **ystyried** papur y Bwrdd.
2. **ystyried** unrhyw gyngor y mae'r Pwyllgor yn dymuno i'r Bwrdd ei ystyried fel rhan o'i drafodaethau.

Gellir dod o hyd i'r papur llawn (ASB 18-09-07) drwy:  
<https://www.food.gov.uk/about-us/fsa-board-meeting-september-2018>  
(Saesneg yn unig)

---

### **FSAW 18/09/07** **I'w drafod**

### **Dadansoddi Risg: Proses, Llywodraethu, Cyfathrebu**

Crynodeb Gweithredol

1.1 Mae'r papur atodedig, sydd i'w ystyried gan y Bwrdd ar 19 Medi, yn nodi sut mae elfennau sylfaenol trefn reoleiddio effeithiol (fel y trafodwyd yng Nghyfarfod Bwrdd Medi 2017) yn cael eu datblygu ymhellach wrth baratoi ar gyfer ymadael â'r UE.

1.2 Bydd Steve Wearne yn cyflwyno'r papur i'r Pwyllgor.

1.3 Gwahoddir aelodau'r Pwyllgor i:

1. **ystyried** papur y Bwrdd.
2. **ystyried** unrhyw gyngor y mae'r Pwyllgor yn dymuno i'r Bwrdd ei ystyried fel rhan o'i drafodaethau.

Gellir dod o hyd i'r papur llawn (ASB 18-09-09) drwy:  
<https://www.food.gov.uk/about-us/fsa-board-meeting-september-2018>  
(Saesneg yn unig)

---

## **FSAW 18/09/08** **I'w drafod**

### **Diweddariad ar Weithgareddau'r ASB ar Ymwrthedd Gwrthficrobaidd gan gynnwys yr Adroddiad ar Grŵp Gorchwyl a Gorffen ACMSF**

Crynodeb Gweithredol

1.1 Mae'r papur atodedig, sydd i'w ystyried gan y Bwrdd ar 19 Medi, yn rhoi diweddariad ar weithgareddau gwyddoniaeth yr ASB sy'n ymwneud ag ymwrthedd gwrthficrobaidd a'r gadwyn fwyd ers papur y Bwrdd ym mis Rhagfyr 2017; mae'n cynnwys:

- adroddiad ac argymhellion Grŵp Gorchwyl a Gorffen ACMSF
- rhaglen ymchwil a gwyliadwriaeth yr ASB yn y maes hwn, sy'n ein rhoi mewn safle da i ymateb i argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

1.2 Bydd Steve Wearne yn cyflwyno'r papur i'r Pwyllgor.

1.3 Gwahoddir aelodau'r Pwyllgor i:

1. **ystyried** papur y Bwrdd.
2. **ystyried** unrhyw gyngor y mae'r Pwyllgor yn dymuno i'r Bwrdd ei ystyried fel rhan o'i drafodaethau.

Gellir dod o hyd i'r papur llawn (ASB 18-09-11) drwy:  
<https://www.food.gov.uk/about-us/fsa-board-meeting-september-2018>  
(Saesneg yn unig)

---

## **FSAW 18/09/02**

## I'w drafod

### Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Cyngtori ar Fwyd Cymru ar Faterion a Godwyd yng Nghyfarfod Diwethaf y Bwrdd Agored

#### Crynodeb Gweithredol

1. Mae'r adroddiad atodedig yn rhoi crynodeb byr o faterion a gyflwynwyd gan y Cadeirydd yng nghyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2018 a'r prif faterion a drafodwyd mewn perthynas â chylch gwaith yr ASB yng Nghymru. Mae cofnodion llawn y cyfarfod hwnnw ar gael ar wefan yr Asiantaeth drwy <http://www.food.gov.uk> (Saesneg yn unig)
2. Gwahoddir aelodau'r Pwyllgor i:
  - **nod**i trafodaethau'r Bwrdd
  - **gwahodd** y Cadeirydd i ymhelaethu ar unrhyw faterion i'w trafod ymhellach.

Cyswilt yr ASB yng Nghymru: Elora Elphick ([elora.elphick@food.gov.uk](mailto:elora.elphick@food.gov.uk))

FSAW 18/09/02

## I'w drafod

### Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Cyngtori ar Fwyd Cymru – Medi 2018

#### 2 1. Adroddiad y Cadeirydd i'r Bwrdd yng nghyfarfod mis Mehefin 2018

1.1 Nododd Cadeirydd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am ymrwymadau diweddar, yn bennaf yn canolbwyntio ar gynyddu ymgysylltiad yr ASB ar lefel wleidyddol gyda nifer o gyfarfodydd â Gweinidogion. Ymhellach, dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi cryfhau perthnasau'r ASB yn Nhŷ'r Arglwyddi, gyda nifer o gyfarfodydd yn cynnwys cyfarfodydd gyda'r Arglwydd Krebs a'r Arglwydd Rooker (cyn-Gadeiryddion yr ASB). Bu cyfarfodydd eraill gyda Chonsortium Manwerthu Prydain, Rhwydwaith Gwybodaeth am y Diwydiant Bwyd (FIIN), y Ffederasiwn Bwyd a Diod, Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr, a gyda chynrychiolwyr y Defnydd Cyfrifol o Gynghrair Meddyginiaethau mewn Amaethyddiaeth i drafod eu cynnydd o ran mynd i'r afael ag ymwrthedd gwrthficrobaidd.

#### 3 2. Crynodeb o'r prif eitemau a drafodwyd

2.1 Yn y cyfarfod ym mis Mehefin 2018, aeth y Bwrdd ati i ystyried y papurau canlynol:

- **Datblygu'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd:** Diweddarwyd y papur gan nodi'r cynnydd gyda chynlluniau i ddatblygu'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd i gael galluoedd gweithredol sy'n ei galluogi i weithredu o ddechrau'r gadwyn i'r diwedd.

- **Rheolaethau Llaeth Yfed Amrwd:** Roedd y papur yn ystyried y trefniadau presennol ar gyfer cyflwyno rheolaethau ar gyfer llaeth yfed amrwd ac ystyriwyd opsiynau posibl ar gyfer trefniadau yn y dyfodol. Roedd y papur yn trafod yr egwyddor o fynd i'r afael â gwerthiannau llaeth yfed amrwd yng nghyd-destun egwyddorion (Rheoleiddio Ein Dyfodol) a'r Fframwaith Bwydydd sy'n Peri Risg a nodi argymhellion i wella'r rheolaethau presennol.
- **Adolygiad o ffatrioedd torri a storfeydd oer:** Roedd y papur dros dro yn crynhoi'r cynnydd a wnaed gan yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban ar eu hadolygiad ledled y DU o ffatrioedd torri a storfeydd oer yn sgil materion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn gwahanol ffatrioedd torri.
- **Rheoleiddio Ein Dyfodol – Adroddiad Canol y Rhaglen:** Roedd y papur yn nodi'r cynnydd a wnaed ar draws rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol ers mis Mehefin 2017. Disgrifiodd y papur y newidiadau allweddol a fydd yn cael eu gwneud i'r gyfundrefn reoleiddio erbyn i'r Deyrnas Unedig (DU) ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE) a hefyd paratodau ar gyfer cyflenwi ar ôl ymadael â'r UE.
- **Strategaeth Ryngwladol:** Roedd y papur yn nodi strategaeth ryngwladol ddrafft ar gyfer yr ASB gydag opsiynau ar gyfer cyflwyno dull mwy strategol a chydlynol o ymgysylltu rhyngwladol yn y dyfodol.
- **Adolygu Pwyllgorau Cynghori ar Fwyd:** Roedd y papur yn nodi canfyddiadau adolygiad a gomisiynwyd i ystyried sut y gellid gwella a chryfhau cyfraniad gwerthfawr y Pwyllgorau Cynghori ar Fwyd yng Nghymru a Gogledd Iwerddon yn enwedig o ystyried yr ansicrwydd presennol ynglŷn â rôl yr ASB ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Ar hyn o bryd, rwyf yn datblygu cynllun gweithredu i fwrw ymlaen ag argymhellion yr adolygiad.

2.2 Mae cofnodion drafft cyfarfod Bwrdd mis Mehefin 2018, sy'n rhoi mwy o gyd-destun, yn ogystal â chasgliadau'r Bwrdd ar y papurau uchod ar gael drwy: <https://www.food.gov.uk/about-us/fsa-board-meeting-june-2018> (Saesneg yn unig)

### 3. Materion eraill

3.1 Ers y cyfarfod diwethaf, rwyf wedi cymryd rhan blaenllaw yn y broses recriwtio i benodi dau aelod newydd i Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru. Cefais gymorth yn ystod y broses gan gydweithwyr yn Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae cyfweiliadau bellach wedi'u cynnal ac yn destun cadarnhad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, rydym ni'n rhagweld y bydd dau benodiad newydd yn cychwyn ganol mis Medi.

**Dr Ruth Hussey CB, OBE**



**PAPUR FSAW 18/09/03**

**I'w drafod**

**Diweddariad gan y Cyfarwyddwr Dros Dro**

Crynodeb Gweithredol

1. Mae'r papur atodedig yn cyfeirio at faterion a gyflwynwyd gan y Prif Weithredwr yn y cyfarfod Bwrdd diwethaf a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2018. Mae cofnodion llawn cyfarfod y Bwrdd ar gael ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) drwy <http://www.food.gov.uk/>. Mae'r papur hefyd yn rhoi diweddariad ar faterion sy'n berthnasol i Gymru ac mae'n sail i'r diweddariad i Bwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru.
2. Bydd Cyfarwyddwr Dros Dro yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yng Nghymru yn ategu'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn gyda diweddariad ar lafar, lle bo'n briodol.
3. Gwahoddir aelodau i:
  - **nodir** diweddariad
  - **gwahodd** y Cyfarwyddwr Dros Dro i ymhelaethu ar unrhyw faterion i'w trafod ymhellach

**Cyswllt yr ASB yng Nghymru:** Elora Elphick ([elora.elphick@food.gov.uk](mailto:elora.elphick@food.gov.uk))

**PAPUR FSA 18/09/03**

**I'w drafod**

**Diweddariad gan y Cyfarwyddwr**

- 1 Crynodeb o Adroddiad y Prif Weithredwr i Gyfarfod Agored y Bwrdd ar 20 Mehefin 2018.**
  - 1.1 Derbyniodd y Bwrdd adroddiad ysgrifenedig y Prif Weithredwr (FSA 18/06/04) sydd ar gael drwy'r ddolen hon (Saesneg yn unig): <https://www.food.gov.uk/about-us/fsa-board-meeting-june-2018>
- 2 Adroddiad Cyfarwyddwr Dros Dro Cymru ar Faterion yn ymwneud â Chymru**

Ymgysylltu'n allanol

2.1 Rydw i wedi cymryd rhan yn y cyfleoedd ymgysylltu canlynol ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor hwn ar 14 Mehefin 2018:

- 19 Mehefin – Cyfarfod cyswllt Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac ASB Cymru
- 22 Mehefin – cyfarfod â Chyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru (DPPW)
- 5 Gorffennaf – cyfarfod gydag Uned Cydgysylltu Twyll Bwyd Cymru
- 17 Gorffennaf – cyfarfod gyda'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd
- 19 Gorffennaf – cyfarfod Grŵp Cynghori ar Ddiogelu Iechyd Llywodraeth Cymru

#### **Maes Sioe Frenhinol Cymru**

- 22 Gorffennaf – Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) – Lansio ymgyrch 'Ni yw Ffermio Cymru 2018'
- 23 Gorffennaf – Brecwast NFU
- 23 Gorffennaf – Brecwast Hybu Cig Cymru
- 23 Gorffennaf – Digwyddiad '*Where are we now, and where are we heading*' NFU
- 25 Gorffennaf – Derbyniad Cymdeithas Milfeddygol Prydain
- 25 Gorffennaf – Derbyniad Undeb Amaethwyr Cymru
  
- 30 Awst – Adolygiad Gwasanaeth Cyngor Sir Benfro
- 6 Medi – Cyfarfod Grŵp Llywio Cymru y Gwasanaeth Sifil (*Civil Service Local*)

#### Uned Cydgysylltu Twyll Bwyd

2.2 Cynhaliwyd cyfarfod Grŵp Llywodraethu Cydlyn Twyll Bwyd Cymru i roi trosolwg o ddatblygiad Cam 2 yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd (NFCU), trafodaeth y Bwrdd a'r goblygiadau posib ar y model gweithredu presennol yng Nghymru. Ar y cyfan, roedd y Grŵp Llywodraethu yn cefnogi'r cynigion ond gofynnodd am ragor o fanylion am sut y bydd yr NFCU yn gweithredu yng Nghymru wrth i'r manylion hyn ddod i'r amlwg. Mae gwaith yn parhau i alinio Uned Cydgysylltu Twyll Bwyd Cymru â'r NFCU ac i nodi opsiynau ar gyfer y dyfodol.

#### Ymgysylltu â rhanddeiliaid

2.3 Mae ASB Cymru wedi parhau â rhaglen o weithgareddau ymgysylltu mewn perthynas ag ysgolion, digwyddiadau cyhoeddus a chydau rhanddeiliaid allweddol. Roedd hyn yn cynnwys bod yn rhan o ddau ddigwyddiad ymgysylltu â'r cyhoedd yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst – Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol. Cafodd stondin gorfforaethol newydd ASB Cymru ei lansio yn y digwyddiadau hyn. Roedd presenoldeb ASB Cymru yn y sioe yn rhoi'r

cyfle i ymgysylltu â defnyddwyr a rhanddeiliaid allweddol. Daeth dros 3,000 o rhanddeiliaid i ymweld â'r stondin newydd ac, yn dilyn gwerthusiad, byddaf yn ystyried pa ddigwyddiadau y mae ASB Cymru yn debygol o gymryd rhan ynddynt yn 2019.



### Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd

2.4 Yn 2017, cyhoeddodd ASB Cymru ddiwygiadau i God Ymarfer Cyfraith Bwyd Cymru (y Cod) <sup>1</sup> i egluro trefniadau ar gyfer cofrestru busnesau bwyd ac arolygu sefydliadau bwyd symudol, llongau ac awyrennau. Diwygiwyd y gofynion cymhwysedd a chymhwyster ar gyfer swyddogion sy'n cyflawni rheolaethau swyddogol a gweithgareddau gorfodi eraill. Diweddarwyd y Cod ddechrau 2018 yng Nghymru i alinio'r canllawiau gyda'r Codau ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon<sup>2</sup>. Mae angen diwygiadau pellach, a lansiwyd ymarfer ymgynghori cyhoeddus 12 wythnos yng Nghymru ym mis Awst 2018 i ddiwygio'r Cod yng Nghymru, a hynny er mwyn cyflwyno newidiadau gweithredol a nodwyd trwy raglen Rheoleiddio Ein Dyfodol. Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar newidiadau arfaethedig, a ddaw i rym o fis Ebrill 2019, i'r broses o gofrestru busnesau bwyd, cymhwyso'r cynllun sgorio ymyriadau sefydliadau bwyd ac i gydnabod Strategaethau Arolygu Cenedlaethol. Bydd y broses ymgynghori hefyd yn ceisio safbwyntiau cynnar gan rhanddeiliaid ar agweddau cyd-ddibynnol eraill ar raglen Rheoleiddio Ein Dyfodol, sydd wrthi'n cael eu datblygu. Mae ymgynghoriadau ar y cynigion hyn hefyd yn cael eu cynnal yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

### Gweithio gydag Awdurdodau Lleol

Ym mis Mai 2018, bu i mi gyfarfod â Phrif Weithredwr Cyngor Gwynedd i drafod gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd yr awdurdod. Trefnwyd y cyfarfod i drafod nifer yr ymyriadau hylendid bwyd a safonau bwyd hwyr a nodwyd gan yr awdurdod wrth gyflwyno ei wybodaeth System Monitro Gwaith Gorfodi

<sup>1</sup> <https://www.food.gov.uk/cy/about-us/codau-ymarfer-cyfraith-bwyd-a-bwyd-anifeiliaid>

<sup>2</sup> <https://www.food.gov.uk/cy/about-us/codau-ymarfer-cyfraith-bwyd-a-bwyd-anifeiliaid>

Awdurdodau Lleol (LAEMS) a gwybodaeth a gafwyd yn gynharach yn y flwyddyn yn archwiliad dilynol yr ASB.

- 2.5 Yn dilyn fy nghyfarfod, nododd yr awdurdod bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd a sicrhau bod ymyriadau'n cael eu cynnal ar adegau priodol. Bydd yr ASB yn parhau i fonitro perfformiad yn yr awdurdod hwn.
- 2.6 Ym mis Awst 2018, ysgrifennais at Brif Weithredwyr pob awdurdod lleol yng Nghymru i roi gwybod am ganfyddiadau'r adolygiad tair blynedd o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd ac i geisio eu hymrwymiad parhaus i fodloni gofynion y cynllun, gan gynnwys y gofyniad i sicrhau bod lleiafswm amllder yr arolygiadau yn cael eu bodloni.

### Cynllun Gweithredu Bwyd a Diod

- 2.7 Mae Llywodraeth Cymru wedi gwahodd rhanddeiliaid i rannu eu barn ar sut y dylai'r sector bwyd a diod ddatblygu rhwng 2020 a 2025 er mwyn llywio'r broses o ddatblygu cynllun olynol i'r Cynllun Gweithredu Bwyd a Diod presennol, a ddaw i ben ym mis Rhagfyr 2019. Mae gwaith ar y cynllun olynol ar y gweill rhwng Llywodraeth Cymru a Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru. Bydd ASB Cymru yn cyfrannu at y datblygiad hwn ac yn helpu i lywio cynigion ymhellach.

### Arian ychwanegol ar gyfer Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE)

- 2.8 Rydym ni wedi bod yn llwyddiannus mewn cais i gael cyllid ychwanegol o £476,000 dros 3 blynedd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Ymadael â'r UE, a fydd yn ein galluogi i gaffael adnoddau ychwanegol i gefnogi ein gwaith.
- 2.9 Mae ASB Cymru yn ymgysylltu'n llawn â phob agwedd ar y rhaglen waith ganolog ar Ymadael â'r UE i sicrhau bod anghenion Cymru yn cael eu hystyried. Mae hyn yn cynnwys cynrychiolaeth ar bob ffrwd waith.

## **3 Bwrw Golwg Ymlaen**

- 3.1 Rhwng nawr a chyfarfod agored nesaf Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru ar 29 Tachwedd, rwyf wedi ymrwmo i'r pethau hyn sy'n berthnasol i'r ASB yng Nghymru:
  - 18 a 20 Medi – Cyfarfod cyswllt yr ASB/DPPW
  - 8 Hydref – Cyfarfod cyswllt yr ASB/Llywodraeth Cymru
  - 18 Hydref – Cyfarfod Grŵp Cyngori ar Ddiogelu Iechyd Llywodraeth Cymru
  - 19 Hydref – Cyfarfod cyswllt yr ASB/DPPW
  - 15 Tachwedd – Cyfarfod cyswllt yr ASB/Llywodraeth Cymru

**Richard Bowen**

Cyfarwyddwr Dros Dro, ASB Cymru  
Medi 2018